Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar

Canllawiau i gonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, ysgolion, meithrinfeydd, grwpiau chwarae a gwarchodwyr plant

Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 172/2015
Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2015
Yn disodli dogfen ganllawiau: rhif 167/2015

Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar – Canllawiau i gonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, ysgolion, meithrinfeydd, grwpiau chwarae a gwarchodwyr plant

Cynulleidfa

Consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, ysgolion, meithrinfeydd, grwpiau chwarae a gwarchodwyr plant.

Trosolwg

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi gwybodaeth ynghylch defnydd effeithiol o Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar.

Camau i'w cymryd

Dim – er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Y Gangen Amddifadedd ac Ymgysylltu
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: DeprivationandEngagement@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/addysgasgiliau

Dogfennau cysylltiedig

Ailysgrifennu'r dyfodol: Codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru (Llywodraeth Cymru, 2014)*; Grant Amddifadedd Disgyblion: Canllawiau hanfodol* (Llywodraeth Cymru, 2015); *Wynebu'r her gyda'n gilydd (YGaTh): Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd i ysgolion yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2015); *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* (Llywodraeth Cymru, 2013); *Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi* (Llywodraeth Cymru, 2013).

OGL © Hawlfraint y Goron 2015 WG25281 ISBN digidol 978 1 4734 3497 4

Cynnwys

Rhagair 2

Adran 1: Pwrpas y GADBC 3

Adran 2: Sut mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu'r GADBC? 4

Adran 3: Ffyrdd cymwys o ddefnyddio'r GADBC 5

Adran 4: Arferion effeithiol 9

Adran 5: Atebolrwydd 10

Atodiad A: Sut gall Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar gael ei ddefnyddio? 11

Atodiad B: Adnoddau ychwanegol 12

Rhagair

Mae'r ddogfen hon yn rhan o set o ddeunyddiau sy'n darparu canllawiau ar strategaethau i leihau effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad academaidd. Mae'n egluro'r trefniadau ariannu ar gyfer consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau nas cynhelir mewn perthynas â'r Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar (GADBC) newydd ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed.

Mae hefyd yn disgrifio sut y bydd y grant yn cael ei ddosbarthu i ddarparwyr addysg y blynyddoedd cynnar a ariennir i ddarparu'r Cyfnod Sylfaen ac yn rhoi gwybodaeth i ymarferwyr i'w galluogi i gynllunio ar gyfer gwario eu dyraniad yn y ffordd fwyaf effeithiol ar ymyraethau cynaliadwy i wella cyrhaeddiad plant sydd o dan anfantais.

Mae'r canllawiau hyn yn ategu Dogfen Ganllawiau Llywodraeth Cymru Rhif 162/2015 *Grant Amddifadedd Disgyblion: Canllawiau hanfodol* a gyhoeddwyd ym Mawrth 2015, a dylid eu darllen ochr yn ochr â'r ddogfen honno.

Cyhoeddir rhagor o ganllawiau i ddarparwyr addysg y blynyddoedd cynnar a ariennir i ddarparu'r Cyfnod Sylfaen ar wefan Dysgu Cymru yn dysgu.cymru.gov.uk/amddifadedd. Mae'r canllawiau'n rhoi cyngor ymarferol ynghylch y ffyrdd mwyaf effeithiol o ddefnyddio'r GADBC ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed.

Adran 1: Pwrpas y GADBC

Mae *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* (2013) yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella ein darpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant dros y 10 mlynedd nesaf ac yn cynnwys y camau gweithredu y cytunwyd arnynt i gyflawni hynny. Mae hyn yn cyfrannu at ein hymgyrch i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb sydd wedi'i disgrifio yn ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac *Ailysgrifennu'r dyfodol: Codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru* (2014).

Yn *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair* tynnwyd sylw at y ffaith bod y rhan fwyaf o'r bwlch rhwng cyrhaeddiad plant o deuluoedd breintiedig a rhai o deuluoedd difreintiedig yn cael ei phennu'n gynnar yn eu plentyndod. Mae ymchwil wedi dangos bod buddsoddi yn addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn gallu dod â manteision hirdymor i bob plentyn, ac yn enwedig i blant difreintiedig[1]. Y tu allan i'r cartref, mae tystiolaeth wedi dangos mai addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant o ansawdd da yw un o'r strategaethau mwyaf effeithiol i ymyrryd yn gynnar i wella canlyniadau datblygiadol y plentyn, yn enwedig o ran iaith a datblygiad gwybyddol.

Mae *Ailysgrifennu'r dyfodol* yn datgan na ddylai'r un plentyn yng Nghymru gael ei roi o dan anfantais oherwydd tlodi ac anghydraddoldeb. Mae'n ategu *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair* drwy dynnu sylw at y pwysigrwydd o ymyrryd yn gynnar a'r manteision mawr y gellir eu cael drwy fuddsoddi mewn rhaglenni sy'n targedu'r blynyddoedd cynharaf.

Sefydlwyd y Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) yn 2012 i wella'r canlyniadau ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal. Caiff y GAD ei dalu i ysgolion am bob dysgwr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim rhwng 5 a 15 oed ac i gonsortia rhanbarthol am bob dysgwr rhwng 4 a 15 oed sy'n derbyn gofal.

Mae'r GADBC yn ehangu'r cymhwysedd drwy gynnwys plant tair a phedair blwydd oed sydd mewn addysg a ariennir i ddarparu'r Cyfnod Sylfaen yn 2015–16 a 2016–17.

Dylid defnyddio arian y GADBC mewn ffordd a fydd yn cael effaith barhaus ar y canlyniadau i ddysgwyr difreintiedig. Consortia rhanbarthol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y grant yn cael ei ddefnyddio at y dibenion arfaethedig.

Yn yr un modd â'r GAD, nod y GADBC yw gwella cyrhaeddiad plant **o bob gallu o gartrefi incwm isel** i'w helpu i wireddu eu potensial.

[1] Heckman, J (2008) *Return on Investment: Costs vs. Benefits* Prifysgol Chicago

Adran 2: Sut mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu'r GADBC?

Bydd darparwyr addysg y blynyddoedd cynnar yn derbyn dyraniad o £300 am bob dysgwr cymwys. Er mwyn bod yn gymwys, rhaid i'r dysgwr dderbyn addysg blynyddoedd cynnar y Cyfnod Sylfaen am o leiaf 10 awr yr wythnos mewn lleoliad a gymeradwywyd. Os yw'r dysgwr yn derbyn addysg mewn mwy nag un lleoliad, y lleoliad sy'n cael ei ariannu i wireddu'r hawl i dderbyn 10 awr o addysg y Cyfnod Sylfaen fydd yn derbyn y grant.

Er mwyn i'r GADBC fod yn effeithiol, mae'n hanfodol iddo gael ei ddefnyddio i gefnogi'r plant y mae wedi'i fwriadu ar eu cyfer.

Caiff y grant ei ddyrannu i ysgolion yn y **sector a gynhelir** ar sail nifer y plant tair a phedair blwydd oed yn y Cyfnod Sylfaen wedi'i luosi â chyfran y plant pum mlwydd oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol honno. Yn achos ysgolion meithrin lle nad oes plant pum mlwydd oed, defnyddir y gyfran gyfartalog o blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgolion cynradd y mae'n eu bwydo. Telir y grant drwy gonsortia rhanbarthol ond rhaid ei ddirprwyo i ysgolion ac ysgolion meithrin ar gyfradd o 100 y cant.

Ar gyfer lleoliadau yn y **sector nas cynhelir**, bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu ar sail nifer y dysgwyr a ariennir ar gyfer y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau nas cynhelir wedi'i luosi â lefel gyffredinol y cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim ymysg plant pum mlwydd oed yn ardal yr awdurdod lleol.

Telir y grant drwy gonsortia rhanbarthol a bydd disgwyl iddynt weithio gyda'r awdurdodau lleol a'u hathrawon ymgynghorol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen i gyfeirio arian at leoliadau nas cynhelir ar sail gwybodaeth leol ac asesiad o anghenion a wneir gan athrawon ymgynghorol y Cyfnod Sylfaen.

Adran 3: Ffyrdd cymwys o ddefnyddio'r GADBC

Gellir defnyddio'r GAD a'r GADBC i dargedu ymyraethau i helpu ein plant difreintiedig a thrwy eu helpu nhw, helpu'r holl blant i wneud yn well.

Yn Adran 3 o *Ailysgrifennu'r dyfodol* nodir y camau y mae angen eu cymryd er mwyn trechu effaith tlodi yn y blynyddoedd cynnar. Mae *Grant Amddifadedd Disgyblion: Canllawiau hanfodol* (Llywodraeth Cymru, 2015) yn egluro sut y dylid defnyddio'r GAD mewn ysgolion. Gellir addasu nifer o'r dulliau sydd wedi'u hargymell ar gyfer ysgolion i'w defnyddio gyda phlant iau, er bod rhaid cofio y gallai eu hanghenion datblygiadol fod yn wahanol.

Y ddau ffactor 'ansawdd' sy'n cael eu gweld yn bwysig ar gyfer plant difreintiedig yn yr holl grwpiau oedran yw:

- bod yr addysgu yn y lleoliad/ystafell ddosbarth o'r ansawdd gorau posibl
- bod y lleoliadau/ysgolion o'r ansawdd gorau posibl.

Rhai enghreifftiau o ffyrdd o ddefnyddio arian y GADBC i sicrhau bod yr addysgu o'r ansawdd gorau posibl yw:

- lledaenu arferion ar weithgareddau dan gyfarwyddyd athrawon a defnyddio 'llais y disgybl', fel bod yr holl staff yn defnyddio addysgeg effeithiol
- defnyddio staff, yn enwedig cynorthwywyr addysgu, yn y ffordd fwyaf effeithiol ac ymgymryd â datblygiad staff i ategu hyn. Sicrhau bod hyn yn rhyddhau athrawon mwy profiadol ac effeithiol i weithio gyda phlant mwy anghenus
- hyfforddi a chefnogi staff ynghylch pwysigrwydd a phwrpas ymgysylltu â theuluoedd
- gweithio ar y cyd ag ysgolion a lleoliadau eraill
- monitro a gwerthuso plant, gan gynnwys ffyrdd o ymdrin â'r syniad y dylai plant fod 'yn barod i'r ysgol' erbyn iddynt ddechrau mewn addysg feithrin.

Enghreifftiau eraill o ffyrdd posibl o addasu dulliau o weithredu yn yr ysgol i ddiwallu anghenion y grŵp oedran iau hwn yw meithrin cysylltiadau â'r cartref er mwyn hybu gweithgareddau i gefnogi sgiliau iaith a rhifedd cynnar, neu i ddatblygu sgiliau annibyniaeth y plant; hunanreoleiddio; mynd i'r toiled; gwisgo; bwyta'n iach; meithrin partneriaethau â rhieni/gofalwyr, teuluoedd a chymunedau.

Datblygiad iaith cynnar

Y ffactor pwysicaf yn y blynyddoedd cynnar yw amgylchedd y plentyn, yn enwedig maint ac ansawdd y 'siarad' y mae plant yn ei brofi gyda'u rhieni/gofalwyr, teuluoedd, cyfoedion ac ymarferwyr blynyddoedd cynnar. Rydym yn gwybod bod nifer o ffactorau gwahanol yn effeithio ar ddatblygiad cynnar o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu[2]. Mae ymchwil wedi dangos bod ffactorau amgylcheddol a genetig yn effeithio ar ddatblygiad y plentyn o ran iaith a chyfathrebu. Mae'n hanfodol bod rhieni/gofalwyr ac ymarferwyr y blynyddoedd cynnar yn cydweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau i blant.

[2] Higgins et al. (2014) *The Sutton Trust-Education Endowment Foundation Teaching and Learning Toolkit* Education Endowment Foundation

Mae dogfen Llywodraeth Cymru *Dechrau'n Deg – Atodiad: Canllawiau ar Leferydd, Iaith a Chyfathrebu* (2015) yn disgrifio'r mathau o gymorth y bydd plant a'u teuluoedd yn eu cael ar gyfer datblygu iaith yn gynnar o dan Dechrau'n Deg. Bydd anghenion ychwanegol gan rai plant o hyd, yn enwedig anghenion o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu, wrth symud o Dechrau'n Deg i'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r canllawiau hyn yn darparu gwybodaeth hefyd am ymyraethau seiliedig ar dystiolaeth i blant sydd ag anghenion parhaus yng nghyswllt lleferydd, iaith a chyfathrebu ac am ffyrdd o gefnogi'r pontio i'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r wefan ddefnyddiol *What Works?* wedi'i bwriadu'n bennaf ar gyfer ymarferwyr sydd am ddod o hyd i ymyraethau seiliedig ar dystiolaeth i helpu plant sydd ag anghenion o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu (gweler yr adran 'Atodiad B: Adnoddau ychwanegol').

Mae iaith a chwarae yn un o nifer o raglenni cyffredinol i hwyluso datblygiad iaith cynnar sydd â'r nod o sicrhau bod 'pob plentyn ifanc yn barod i ddysgu pan fydd yn dechrau yn yr ysgol'. Mae iaith a chwarae yn ceisio rhoi gwybodaeth i rieni/gofalwyr ynghylch siarad a gwrando gyda'u plant ifanc ac mae'n annog rhieni/gofalwyr i rannu llyfrau, storïau a rhigymau a dylid ei hyrwyddo fel ymyrraeth gadarnhaol. Mae'r rhaglen wedi'i seilio ar y themâu canlynol.

- Pwysigrwydd siarad.
- Rheolweithiau pob dydd.
- Ar eich hynt.
- Rhannu llyfrau a storïau.
- Caneuon a rhigymau.
- Ysgrifennu cynnar.

Cefnogi rhianta

Mae amgylcheddau teuluol sy'n cynnwys ffactorau sy'n gysylltiedig â rhianta da yn nodwedd amddiffynnol i blant sy'n cael eu magu mewn cymdogaethau difreintiedig. Dangoswyd bod rhianta sensitif a chyson, os yw ar gael, yn hyrwyddo gwydnwch mewn plant sy'n byw mewn tlodi. Mae tystiolaeth helaeth hefyd sy'n dangos bod ymgysylltu gan rieni/gofalwyr a rhianta da yn y cartref yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a chanlyniadau'r plentyn yn yr ysgol a'u bod yn lliniaru'r effeithiau o fod mewn cartref incwm isel.

> … parental involvement in the form of 'at-home good parenting' has a significant positive effect on children's achievement and adjustment even after all other factors shaping attainment have been taken out of the equation … The scale of the impact is evident across all social classes and all ethnic groups.
>
> Desforges and Abouchaar (2003) *The Impact of Parental Involvement, Parental Support and Family Education on Pupil Achievement and Adjustment: A Literature Review* (tudalen 4) Yr Adran Addysg a Sgiliau

Mae'r Sutton Trust, sy'n ymgyrchu i wella symudedd cymdeithasol, hefyd wedi nodi bod ymlyniad diogel, rhianta cadarnhaol ac amgylchedd y cartref yn ffactorau allweddol sy'n hybu llwyddiant mewn addysg.

Ceir gwybodaeth yn Atodiad B i ganllawiau Llywodraeth Cymru *Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar ymgysylltiad a chymorth* (gweler yr adran 'Atodiad B: Adnoddau ychwanegol') am ymyraethau seiliedig ar dystiolaeth priodol o ran oedran i hyrwyddo 'rhianta da' a pharatoi plant ar gyfer yr ysgol. Rhoddir sgôr am y sylfaen dystiolaeth i'r rhaglenni hyn hefyd. Yn Adran 7.3 o'r canllawiau, mae gwybodaeth am rwystrau rhag ymgysylltu a chynghorion a strategaethau i'w goresgyn er mwyn cael mwy o ymgysylltu gan rieni/gofalwyr. Mae Adran 8 yn darparu cyngor ac awgrymiadau ar gyfer gweithio gyda grwpiau o rieni/gofalwyr sydd ag anghenion penodol. Mae'r rhain yn cynnwys rhieni/gofalwyr o leiafrifoedd ethnig; rhieni/gofalwyr ifanc; tadau; rhieni/gofalwyr anabl; gofalwyr maeth a gofalwyr sy'n berthnasau; teuluoedd sydd â rhiant/gofalwr yn y carchar; rhieni/gofalwyr sydd ag anghenion iechyd meddwl a rhieni/gofalwyr sydd wedi profi cam-drin domestig.

Trefniadau pontio

Bydd yn fanteisiol i ysgolion a lleoliadau addysg roi trefniadau pontio effeithiol ar waith i gefnogi plant tair a phedair blwydd oed wrth iddynt symud o'r cartref, gofal plant a Dechrau'n Deg i'r Cyfnod Sylfaen. Mae penaethiaid y Cyfnod Sylfaen mewn awdurdodau lleol wedi dweud bod plant yn ymgartrefu'n well os yw'r pontio wedi'i reoli'n dda. Mae Estyn o blaid cael trefniadau pontio effeithiol rhwng cyfnodau dysgu er mwyn helpu'r plentyn i ddatblygu'n barhaus a'i gwneud yn llai tebygol iddo gymryd cam yn ôl. Mae'r ffordd o gydweithio rhwng lleoliadau Dechrau'n Deg, darparwyr cyn ysgol a gofal plant, ysgolion a'r gweithwyr proffesiynol o fewn y lleoliadau hynny'n hollbwysig.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru *Dechrau'n Deg – Canllawiau Pontio* yn amlinellu ein disgwyliadau o ran nifer y pwyntiau trosglwyddo, gan gynnwys y pwynt trosglwyddo rhwng Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r canllawiau wedi'u bwriadu ar gyfer y rheini sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd sy'n derbyn gwasanaethau Dechrau'n Deg ac sy'n gyfrifol am gynllunio a rheoli cyfnodau pontio. Maent hefyd yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol i holl ymarferwyr y blynyddoedd cynnar sy'n disgrifio sut y dylid rhannu gwybodaeth a sut y dylid helpu plant a rhieni/gofalwyr yn ystod y broses pontio.

Bydd y GADBC yn hybu dilyniant ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed, rhwng y cymorth ychwanegol a roddir i blant Dechrau'n Deg sy'n cael gofal plant am ddim (sydd wedi'i seilio ar addysgeg y Cyfnod Sylfaen) yn ddwy oed, a'r cymorth ychwanegol a ddarperir mewn ysgolion drwy'r GAD i blant o oedran ysgol.

Mentrau ar gyfer yr ysgol/lleoliad cyfan

Yn yr un modd â'r GAD, gellir defnyddio'r GADBC mewn mentrau ar gyfer yr ysgol/lleoliad cyfan a fydd o fantais neilltuol i ddysgwyr ifanc difreintiedig, er enghraifft, i gyflwyno, ymestyn neu gysylltu â systemau tracio effeithiol sy'n pennu anghenion unigol ac wedyn yn rhoi atebion ar waith i ddiwallu'r anghenion hyn. Fodd bynnag, dylai darparwyr sicrhau bod y mentrau hynny ar gyfer yr ysgol/lleoliad cyfan yn briodol i ddiwallu'r anghenion datblygu unigol sydd gan blant tair a phedair blwydd oed oherwydd gallent fod yn wahanol iawn i'r anghenion sydd gan blant hŷn.

Lleoliadau nas cynhelir

Bydd yr athrawon ymgynghorol yn gweithio gyda lleoliadau nas cynhelir sydd wedi'u cymeradwyo i gytuno ar y ffordd o ddefnyddio'r arian. Bydd yn bwysig hefyd fod yr athrawon ymgynghorol a'r lleoliad nas cynhelir yn cysylltu â'r ysgolion y bydd yn eu bwydo i bennu cyfleoedd ar gyfer cydweithio rhwng ysgolion a lleoliadau nas cynhelir i wneud y defnydd gorau posibl o'r GADBC.

Dylai consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol roi pob anogaeth i gyfuno arian y GADBC os mai hynny fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o'i ddefnyddio; yn enwedig yn achos lleoliadau sydd â dyraniadau bach, er enghraifft, er mwyn prynu hyfforddiant datblygiad proffesiynol mewn swydd gan therapyddion lleferydd.

Adran 4: Arferion effeithiol

Mae'r sefydliad Education Endowment Foundation wedi llunio pecyn cymorth Blynyddoedd Cynnar a fydd yn helpu ymarferwyr i ddefnyddio'r GADBC yn effeithiol i gefnogi dysgwyr ifanc difreintiedig (gweler yr adran 'Atodiad B: Adnoddau ychwanegol').

Mae'r canllawiau ar gyfer y GADBC *Beth sydd wir yn gweithio ar gyfer y blynyddoedd cynnar*? yn rhoi cyngor ymarferol i ddarparwyr addysg blynyddoedd cynnar a ariennir i ddarparu'r Cyfnod Sylfaen ynghylch y ffyrdd mwyaf effeithiol o ddefnyddio'r GADBC ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed.

Adran 5: Atebolrwydd

Mae strwythurau atebolrwydd priodol yn hanfodol ond rhaid iddynt ychwanegu gwerth a bod yn gymesur yn hytrach na llyncu adnoddau gwerthfawr. Nid oes angen i ddarparwyr addysg blynyddoedd cynnar gael cynllun gwariant ar wahân ar gyfer y GADBC ond fy ddylent nodi yn eu dogfennau cynllunio cyffredinol sut y byddant yn defnyddio'r GADBC, y canlyniadau y maent yn eu disgwyl o'r buddsoddiad a sut y gellir tracio a monitro ei effaith.

Bydd consortia rhanbarthol yn gyfrifol am sicrhau bod arian y GADBC yn cael ei ddosbarthu'n briodol, bod yr holl adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol, a bod yr holl ddarparwyr yn defnyddio'r arian yn unol â'r dibenion y cytunwyd arnynt.

Bydd disgwyl i gonsortia rhanbarthol ac athrawon ymgynghorol y Cyfnod Sylfaen mewn awdurdodau lleol roi cymorth i addysgwyr y blynyddoedd cynnar i gynllunio'n effeithiol, gan sicrhau bod cynlluniau'n cynnwys uchelgeisiau clir ar gyfer defnyddio'r GADBC i wella canlyniadau i blant o gefndiroedd difreintiedig.

Mae arolygiadau ysgol Estyn yn adrodd ar gyrhaeddiad a chynnydd y dysgwyr difreintiedig y ceir GAD ar eu cyfer. Yn y dyfodol, bydd hyn yn cynnwys elfen blynyddoedd cynnar y GAD hefyd.

O dan ei system arolygu, mae Estyn yn asesu pa mor dda y mae ysgolion a lleoliadau addysg yn cefnogi grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed, fel y rheini o gefndiroedd difreintiedig, a sut y maent yn defnyddio adnoddau fel y GAD. Sicrheir rhagor o atebolrwydd drwy gynnal gwerthusiad annibynnol o'r GADBC.

Atodiad A: Sut gall Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar gael ei ddefnyddio?



Atodiad B: Adnoddau ychwanegol

Mae'r dogfennau canlynol yn darparu gwybodaeth a all fod o gymorth wrth bennu'r ffyrdd mwyaf priodol o helpu dysgwyr difreintiedig i wneud cynnydd a gwella eu cyrhaeddiad.

A review of practice in the implementation of the early language development support element within Flying Start
(Llywodraeth Cymru, 2014)
www.gov.wales/statistics-and-research/review-practice-implementation-early-language-development-support-element-within-flying-start/?skip=1&lang=cy

Arfer dda o ran cynnwys rhieni mewn ysgolion cynradd
(Estyn, 2009)
www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/178105.2/arfer-dda-o-ran-cynnwys-rhieni-mewn-ysgolion-cynradd-ebrill-2009/?navmap=30,163,

Arweiniad atodol ar gyfer arolygu diogelu mewn lleoliadau nas cynhelir
(Estyn, 2014)
www.estyn.gov.uk/cymraeg/gwybodaeth-am-arolygiadau/arweiniad-atodol/

Beth sydd wir yn gweithio ar gyfer y blynyddoedd cynnar? Canllawiau ar gyfer Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar
(Llywodraeth Cymru, 2015)
www.learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/pdg-what-really-works/?skip=1&lang=cy

Cymunedau, Teuluoedd ac Ysgolion Gyda'i Gilydd: Llwybr i leihau effaith tlodi ar gyflawniad addysgol yn ysgolion Cymru
(David Egan, Cronfa Achub y Plant, 2012)
www.savethechildren.org.uk/sites/default/files/images/Communities-familes-and-schools-summary-CYM.pdf

Dechrau'n Deg: Canllawiau Pontio
(Llywodraeth Cymru, 2014)
www.gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/flyingstart/?skip=1&lang=cy

Early Years Toolkit
(Education Endowment Foundation, 2015)
www.educationendowmentfoundation.org.uk/toolkit/early-years/

Wynebu'r her gyda'n gilydd (YGaTh): Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd i ysgolion yng Nghymru
(Llywodraeth Cymru, 2015)
learning.gov.wales/resources/browse-all/family-and-community-engagement-toolkit/?skip=1&lang=cy

Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar | 12

Gwefan *What Works?*
(Mae'r wefan *What Works?* wedi'i bwriadu'n bennaf ar gyfer ymarferwyr sydd am ddod o hyd i ymyraethau seiliedig ar dystiolaeth i helpu plant sydd ag anghenion o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu.)
www.thecommunicationtrust.org.uk/whatworks

Gwneud defnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion: Adnodd ar gyfer arweinwyr ac ymarferwyr addysg
(Prifysgol Cymru, Canolfan Cymru er Cydraddoldeb mewn Addysg, Yr Athro David Egan, YrAthro Danny Saunders, Lizzie Swaffield, 2014)
www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/equity-in-education/gwneud-defnydd-effeithiol-or-grant-amddifadedd-disgyblion.pdf

Mynd i'r afael â difreintedd a chodi safonau
(Estyn, 2014)
www.estyn.gov.uk/cymraeg/arfer-orau/mynd-ir-afael-difreintedd-a-chodi-safonau/

Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar ymgysylltiad a chymorth
(Llywodraeth Cymru, 2014)
www.gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/140910-parenting-in-wales-guidance-cy.pdf

Teaching and Learning Toolkit
(Education Endowment Foundation – ar gyfer ymyraethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'w defnyddio yn eich lleoliad/ysgol.)
www.educationendowmentfoundation.org.uk/toolkit/

Y Newyddion Da … Beth mae ysgolion yng Nghymru'n ei wneud i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad disgyblion
(Prifysgol Cymru, Canolfan Cymru er Cydraddoldeb mewn Addysg, David Egan, Russell Grigg, Linda McConnon, Lizzie Swaffield, 2014)
www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/equity-in-education/Y-Newyddion-Da---Beth-mae-ysgolion-yng-nghymru'n-ei-wneud-i-leihaueffaith-tlodi-ar-gyrhaeddiad-disgyblion.pdf